5.118

X2052133 07

# PENNILLION BUDDUGOL

AR

# DDIWYLLIAETH CORS-Y-CEFN,

## PENRHYN-DEUDRAETH, MEIRIONYDD,

SEF TESTYN BARDDONOL CYFARFOD CYSTADLEUOL Y PENRHYN, DYDD LLUN Y SULGWYN, 1856.

## GAN SION OWEN Y GARDDWR.

POB perchen tir sal, hyll anial a llyniog, godarthog a du,
Rhyw bantle tonenog hen fawnog a fu:
A phob dyn a gar i ddaear fo'n ddiwerth, droi'n fawrwerth i'w fudd,
Heb ddal Ammaethyddiaeth yn gaeth o dan gudd;
Yn Mhenrhyn y ddeudraeth gall gaffael anogaeth,
I wneud cystadleuaeth hwsmonaeth os myn,
Trwy wel'd yn driniedig hen gorsle llygredig,
Gwnaeth gwel'd ei aredig wyr Seisnig yn syn;
Du fawndir difendith yn dir gwenith gwyn:
Am drin a thirioni, y fath wael-lawr oedd weili,
Caiff gwr Bron Eryri ei foli gan fil;
Er na chaiff ef lawer o'i fudd, caiff ei bleser
Wrth ddarbod mewn amser, o'i haelder i'w hil,
Ni yr ei ddarbodaeth ei gowaeth ar gil.

Tirionwch y trin, o Felin y Cregin mewn trefu i'r Cefn-coch,
Sydd destyn prydyddu ar ol sychu yr hen soch:
A llwyr yru'r llaid o lygaid ein Penrhyn,—rhwydd enyn ei ddawn,
Wna'r bardd i gaboli rhyw ddyri'n rhwydd iawn,
Wrth weled hyll-grugiau eu lluwchion a'u llechau,
Yn bontydd ar bantiau a'u ffrydiau mewn ffrost,
A gwaliawg rigolydd, trwy galonau siglenydd,
Yn hynod o gelfydd, a beunydd mewn bost,
Y tâl y tir newydd o'i gynydd y gost.
Caiff Harri Sion Parri, Lefelwr ei foli,
A'i fyddin ddi-ddiogi am weini mor wych,
I wneud yn feillionog y llwydaidd bant lleidiog,
A phridd-dir toreithiog o'r creithiog le crych,
Ei glod a ddatgenir tra serchir tir sych.

Trwy sychu'r fath dir, i'w gadw'n ir gwedyn, gwnaed sydyn lesâd,
Chwanegiad at lawnder a gloywder ein gwlad;
A newid yn awr, diwerthlawr oer-darthlud, am wyndud mwy iach,
Ataliwyd gorgryndod oer ryndod y wrach,
A chryd y cymalau, y peswch a'r pwysau,
Oedd ar ein calonau yn ddrwg hyrddiau gynt;
O sawr pwdr lysiau na thyfant boeth hafau,
A ffrwynent ein ffroenau trwy gyrsiau tro gwynt,
Ein anadl cawn bellach yn rhwyddach ar hynt:
Gwnaed maethle llyffantod, a gwalau drwgelod,
Wnaent gynt a'u burgynod in' ormod o nych;
Bro sil y tomenod a hysbiwyd i'r gwaelod,
Yn awr daeth y diwrnod i gyfnod mwy gwych;
Beth gawn yn lle trigfod llysowod? Lle sych.

Pwy bynag sydd heb droi wyneb am driniaeth i doraeth ei dir,
Na safed y'ngwyneb diareb yn hir,—
Ei fara, trwy gred, na cheisied heb chwysu er tarddu o'r tir,
Da beraidd yd bara os hoffa oes hir:
Da geisied ei gysur, o'r ddaear trwy lafur,
Fel na byddo segur dir amhur heb dro;
Na fydded neb diog i drin y tir dreiniog,
A braenu lle brwynog, neu fawnog a fo;
Na fydded daioni'r tyn gleidir tan glo:
Ond rhaned o'i leithdir i grystyn ei grasdir,
Fal byddo cymwysdir fal cors-dir y cefn,
I dyfu pêr lysiau o bob gradd a gwreiddiau,
A llwynog berllenau, toreithiau mewn trefn;
I'r gwr a ragoro cawn lunio can lefn.

I Feirion, sir fawr, daeth gwawr o ragoriaeth tirdriniaeth ar dro,
Tywynodd ar fawndir a brwyndir ein bro;
Er harddwch a budd, yn ufudd y treilir, gwasgerir o'r god,
Er troi pob diffaethwch i'n clydwch a'n clod;
Wrth weled pan drinid, y tir a ddiystyrid
Yn troi, tan law ddiwid, i'n llawndid a'n llwydd,
Yn dyfle Haidd melyn, a gwair heb droellgoryn,
A'r canmol ei briddyn mae pob blewyn blwydd,
Gan droi'n gaws a menyn ar hyn yn bur rwydd:
Gwel'd gweddill dwfr Noah yn myn'd o'r hen fawnfa,
Gan hil Japheth yma, 'rol hir redfa yr âch;
Ni ellir na ddeillia chwerthiniad ysmala,
Wrth wel'd ei thrybola ar redfa o'n tir iach
Ar oll o'r troeth budr yn llif y Traeth Bach.

Gwers hardd yw'r Gors hon i holl etifeddion Swyddfeirion sydd faith—
Diwylliaeth deallus hyfforddus mewn ffaith;
Tarfrwygo trwy fron dwl oerion dalerau, a blaenau tir blin,
Nid gwaith hwsmon-tafod, nid trafod, ond trin,
A llwyr ddigaregu, a moethus ammaethu,
Ymgyraedd Amgaeru, a mynu rho'i Mur,
Yn gadarn ei gydiad o gywrain faes-gaeriad,
Yn gadarn iawn geidwad mewn bwriad yn bur,
I attal traisboriad, na choethiad na chur.
Ha! Cors-y-cefn cochlwyd, le noeth, a ail wnaethwyd,
Tirionwych y triniwyd lle gwelwyd ei gwâl;
Ei lle ni adwaenir, ond ceir ef yn ffridd-dir,
Ceir fod ei holl grugdir, os chwilir, ar chwâl
Byth mwy ni cham-enwir, hi a elwir yn IAL.

EVAN JONES, ARGRAFFYDD, PORTH MADOG.